**TAG UG/UWCH – NEWYDD**

2020U30-1

S18-2020U30-1

# CYMRAEG: AIL IAITH – UG uned 3
## DEFNYDDIO IAITH A BARDDONIAETH
## (Papur Ysgrifenedig)

DYDD LLUN, 21 MAI 2018 – PRYNHAWN
*MONDAY, 21 MAY 2018 – AFTERNOON*

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

***ADDITIONAL MATERIALS***

*A WJEC pink 16-page answer booklet.*

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.
Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*
*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*Write your answers in the separate answer booklet provided.*
*The marking will take into account the quality of written communication used in your answers.*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*
*Copies of the poetry and dictionaries are **not** permitted.*

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** (i) Darllenwch yr erthygl papur bro isod sy'n sôn am ras antur newydd yng Ngogledd Cymru.

Mae **10 camgymeriad** yn yr erthygl wedi cael eu rhifo a'u tanlinellu.
Cywirwch y 10 camgymeriad sydd wedi cael eu rhifo a'u tanlinellu.
Peidiwch copïo'r darn. [10]

Ras Antur Newydd i Ogledd Cymru

Mae ras antur newydd yn cychwyn eleni [1]yn Cricieth. Bydd y ras yn annog mwy [2]o pobl i ymarfer ac i godi arian at achos da yn ôl y trefnwyr. Mis nesaf [3]roedd y ras 10 km yn cychwyn o'r castell ac yn [4]gorfen yng ngwesty'r Llew Du. Bydd y cwrs yn mynd â rhedwyr o gwmpas y castell, ar hyd y traeth ac i mewn i'r [5]tref. Dywedodd trefnydd y ras, Sheila Hughes, 'Dyma gyfle i fechgyn a merched yr ardal ddechrau [6]cadwn heini. [7]Mae dim rhaid mynd yn bell, mae'r ras yn y dref. Rydyn ni'n gwybod [8]bod mae llawer o bobl ifanc yn hoffi rhedeg. [9]Bydd nhw hefyd yn codi arian at achos da. Rhaid talu £5 i gofrestru am y ras a bydd yr arian yn mynd at 'Cricieth Nawr', elusen leol sy'n helpu pobl ifanc mewn angen.'

Os [10]hoffet chi gofrestru ar gyfer y ras, rhaid anfon e-bost at Sheila.hughes@rascriciethnawr.com neu gallwch lenwi ffurflen gais yn siop y Castell, Cricieth.

(ii) Yn y darn yma mae Mari yn sôn am ei phrofiad gwaith. Dychmygwch mai chi ydy Mari.
Newidiwch y **10 ffurf** sydd wedi eu rhifo a'u tanlinellu i'r **person cyntaf unigol**.
Peidiwch copïo'r darn. [20]

Pan [1]oedd hi'n un ar bymtheg oed [2]penderfynodd [3]ei bod hi eisiau bod yn feddyg. Yn naturiol, roedd rhaid [4]iddi hi wneud cyfnod o brofiad gwaith yn yr ysbyty lleol. Roedd y staff yno'n wych. [5]Cafodd hi gyfle i helpu'r nyrsus i wneud y gwelyau, cymryd a chofnodi pwysedd gwaed ac yn y blaen. Wrth gwrs, roedd rhywun yn [6]ei gwylio drwy'r amser.

[7]Roedd hi'n ddiolchgar iawn i bawb yn yr ysbyty am roi'r cyfleoedd hyn [8]iddi hi. [9]Bydd hi'n gweithio'n galed yn yr ysgol nawr er mwyn cyflawni [10]ei huchelgais.

(iii) Mae eich dosbarth Cymraeg eisiau trefnu taith ysgol i Gaerdydd. Chi sy'n trefnu ble i aros. Ysgrifennwch e-bost at Cerys Davies, rheolwr Gwersyll yr Urdd Caerdydd, i holi am y llety. [20]

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen.

Gallwch sôn am:

- pryd hoffech chi aros yn y gwersyll?
- am faint hoffech chi aros? (e.e. penwythnos, wythnos)
- faint o bobl sy'n dod ar y daith ysgol?
- beth hoffech chi wneud yn ystod y dydd? (e.e. ymweld â Chastell Caerdydd, yr Amgueddfa Genedlaethol, Stadiwm y Mileniwm, y Senedd)
- beth hoffech chi wneud yn eich amser hamdden? (e.e. mynd i'r sinema, bowlio deg)
- ble hoffech chi fwyta?

Rhoddir marciau am ysgrifennu cywir. Cynlluniwch eich gwaith yn ofalus cyn dechrau.

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**2.** Darllenwch yn ofalus y pennill canlynol o'r gerdd *Lerpwl* gan Grahame Davies ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Pan oeddwn i'n llanc yn Sir Ddinbych
dydd Sadwrn i'w gofio i mi
oedd mynd dros y ffin am y diwrnod
i'r ddinas yn ymyl y lli.

(i) Beth ydy prif neges y pennill hwn? Sut mae neges y gerdd yn newid yn ystod y gerdd?

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen. [25]

(ii) Yn y gerdd *Lerpwl*, mae'r bardd yn defnyddio'r technegau canlynol:

- odli
- y person cyntaf
- personoli

Trafodwch pa mor effeithiol ydy'r technegau uchod yn y gerdd hon.

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen. [25]

(iii) Yn ôl Grahame Davies mae 'Lerpwl 'di dod ataf fi'. Mae cyfrifiad 2011 yn dweud bod 27% o boblogaeth Cymru wedi eu geni y tu allan i Gymru. Sut mae mewnlifiad yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn eich barn chi?

Gallwch sôn am:

- bwysigrwydd dysgu iaith y wlad rydych chi'n byw ynddi
- effaith mewnlifiad ar yr iaith Gymraeg
- y cyfleoedd i ddysgu'r iaith yn eich ardal chi
- ble gallwch chi fynd i siarad Cymraeg. [20]

**DIWEDD Y PAPUR**